Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Safon Ansawdd Tai Cymru

## Gwella tai cymdeithasol yng Nghymru – Canllaw i denantiaid



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'r ddogfen '**Safon Ansawdd Tai Cymru – cynnal a gwella tai cymdeithasol yng Nghymru**'.

**Mai 2024** **Rhif: WG 44691**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd /
This document is also available in English

© Hawlfraint y Goron

Digital ISBN 978-1-83625-151-4

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond mae'n bosib bydd angen cymorth arnoch chi i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu.



Efallai bod hi'n anodd deall y geiriau mewn **ysgrifen las drwm**. Gallwch chi siecio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei olygu ar **dudalen 34**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn y golygu **Llywodraeth Cymru**. I gael mwy o wybodaeth, dyma sut i gysylltu â ni:

**Gwefan:** https://llyw.cymru/cysylltu-ni

**E-bost:** **cymorth@llyw.cymru**

**Ffôn**: 0300 0604400

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hon, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**

# Cynnwys


| | Tudalen |
| --- | --- |
| Cyflwyniad | 4 |
| Am y Safon | 6 |
| Sut i basio'r Safon | 9 |
| Rhaid i gartrefi fod mewn cyflwr da | 10 |
| Diogelwch eiddo a diogelwch personol | 11 |
| Gwresogi a'r amgylchedd | 15 |
| Rhaid i gartrefi fod yn gyfforddus | 20 |
| Gwneud cartrefi yn addas i'r tenant | 22 |
| Beth sydd angen i'r landlord ei wneud | 25 |
| Mwy o wybodaeth | 28 |
| Geiriau anodd | 34 |

# Cyflwyniad

Ni yw **Llywodraeth Cymru**.


Safon Ansawdd Tai Cymru
2023
*Drafft ar gyfer ymgynghori*

Gwnaethon ni ysgrifennu dogfen o'r enw **Safon Ansawdd Tai Cymru**. Byddwn ni'n defnyddio'r teitl byr '**y Safon**'. Mae'r ddogfen newydd hon yn fersiwn sydd wedi'i ddiweddaru ac mae'n nodi beth mae rhaid i landlordiaid ei wneud o fis Ebrill 2024 ymlaen.



Rydyn ni am i bobl sy'n byw mewn **tai cymdeithasol** fod â chartrefi o ansawdd da.



**Tai cymdeithasol** yw cartrefi y mae pobl yn gallu fforddio eu rhentu heb lawer o arian.




Mae'r **Safon** ar gyfer **landlordiaid** sy'n berchen ar **dai cymdeithasol**. **Landlordiaid** cymdeithasol yw cynghorau a chymdeithasau tai.



Mae **landlordiaid** yn berchen ar gartrefi y mae pobl eraill yn eu rhentu ac yn byw ynddyn nhw. Rhaid i **landlordiaid** sicrhau bod eu cartrefi mewn cyflwr da.



Mae'r **Safon** yn dweud wrth **landlordiaid** sut i wneud eu cartrefi'n well. Ac yn fwy diogel.




Mae'r **canllaw** hwn yn helpu **tenantiaid** cymdeithasol i wybod beth i'w ddisgwyl gan eu **landlord.** Mae'n egluro beth mae'r **Safon** yn dweud y mae'n rhaid i **landlordiaid** ei wneud.



Mae **tenant** yn rhywun sy'n rhentu ei gartref. Maen nhw'n talu eu landlord bob wythnos neu bob mis.

# Am y Safon

Mae'r Safon yn rhoi rhestr o 8 peth mae rhaid i gartref o ansawdd da fod â nhw.  Mae rhaid iddo fe:



1. Bod mewn cyflwr da.



2. Bod yn ddiogel.



3. Peidio â chostio gormod i'w wresogi. A pheidio â bod yn wael i'r **amgylchedd**.



Yr **amgylchedd** yw lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y mor, yr awyr, a phopeth sy'n byw arno fe neu ynddo fe. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid, a physgod. Mae rhai tanwyddau sy'n cael eu defnyddio i wresogi cartrefi yn gallu niweidio'r **amgylchedd**.



4. Bod â chegin gyfoes.



5. Bod ag ystafell ymolchi gyfoes.



6. Bod yn gyfforddus. A bod yn addas i'r person sy'n byw yno.



7. Bod â gardd os yw'n bosib.



8. Bod â lle dymunol y tu allan os yw'n bosib.



Os oes gan gartref yr 8 peth yma i gyd, rydyn ni’n dweud ei fod e wedi pasio’r **Safon**.



Ond rydyn ni’n gwybod nad yw hi’n bosib i rai cartrefi basio pob rhan o’r **Safon**.




Mae hynny’n iawn. Os oes rheswm da.



Os nad yw cartref yn bodloni rhan o’r **Safon**, mae rhaid i **landlordiaid** ddweud y rheswm wrthon ni.

# Sut i basio'r Safon




Mae'r adran hon yn dweud beth mae rhaid i **landlordiaid** ei wneud a'i wirio er mwyn i gartref allu pasio'r **Safon**.



Mae dogfennau a chanllawiau eraill hefyd. Maen nhw'n esbonio'r gwiriadau ar gyfer pethau gwahanol yn fanylach.



Rydyn ni wedi cynnwys rhestr o'r dogfennau a'r canllawiau eraill hyn yn yr adran **mwy o wybodaeth** ar dudalen 27.





Mae offeryn ar gael i **landlordiaid** o'r enw y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai. Cliciwch i weld mwy o wybodaeth.



Bydd yn helpu **landlordiaid** i wirio eu cartrefi. I wneud yn siŵr eu bod nhw'n ddiogel ac o ansawdd da.

# Rhaid i gartrefi fod mewn cyflwr da

## Waliau



Mae rhaid i waliau fod mewn cyflwr da. A pheidio â bod yn wan nac yn cwympo i lawr.

## Lleithder



Ni ddylai fod **unrhyw** leithder mewn cartref. Mae waliau llaith yn ddrwg i gartref. Ac yn ddrwg i iechyd **tenant**.

# Diogelwch eiddo a diogelwch personol

## Grisiau



Dylai grisiau fod yn ddiogel. A pheidio â bod ag unrhyw ddifrod sy'n eu gwneud nhw'n beryglus.

## Drysau a ffenestri




**Secured By Design** yw canllaw gan yr heddlu am ddiogelwch yn y cartref. Cliciwch yma - Secured By Design i weld mwy o wybodaeth.



Mae'r cyngor hwn yn helpu i sicrhau bod drysau a ffenestri'n ddiogel.

# Diogelwch tân



Rhaid i gartrefi fod â synwyryddion gwres a mwg sy'n bodloni **Safonau Prydeinig**.




**Safonau Prydeinig** yw rheolau ansawdd mae rhaid i bawb eu dilyn.




Mae rhaid bod ffordd ddiogel a hawdd i **denantiaid** ddianc os oes tân. Mae hyn yn cynnwys dianc o fflatiau a chartrefi sy'n cael eu rhannu.




Mae rhaid i **landlordiaid** wirio cartrefi'n rheolaidd am ddiogelwch tân. A dilyn yr holl ddeddfau diogelwch tân.

# Diogelwch nwy a gwresogi



Mae rhaid i gartrefi gynnwys **synwyryddion carbon monocsid** sy’n bodloni **Safonau Prydeinig**. Mae **carbon monocsid** yn gallu bod yn nwy niweidiol. Bydd y synwyryddion yn gwneud sŵn os bydd nwy yn gollwng.




Mae rhaid i gartrefi gael gwiriad diogelwch bob blwyddyn os ydyn nhw’n defnyddio:

- Nwy. Er enghraifft, boeler nwy.
- Olew. Er enghraifft, gwresogydd olew.
- Tanwydd solet. Er enghraifft, tân glo.



Mae rhaid i bob gwiriad diogelwch gael ei wneud gan berson cymwys.



Mae rhaid i **landlordiaid** roi copi o’r gwiriadau diogelwch i **denantiaid**.

# Diogelwch trydanol



Dylai unrhyw eitemau trydanol sy'n eiddo i'r **landlord** gael prawf diogelwch bob blwyddyn. Er enghraifft, popty.



Dylai cartrefi gael gwiriad diogelwch trydanol bob 5 mlynedd neu lai. Mae hyn yn cael ei alw'n **Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol**.



Mae rhaid i'r gwiriad diogelwch hwn gael ei wneud gan weithiwr proffesiynol.



Mae rhaid i **landlordiaid** roi copi o'r gwiriad hwn i **denantiaid**.

# Gwresogi a'r amgylchedd

## Gwresogi



Mae'r **Weithdrefn Asesu Safonol** yn wiriad i weld a oes gan gartrefi wres o ansawdd da.



Mae rhaid i'r **landlord** ddilyn y **Weithdrefn Asesu Safonol**.



Mae rhaid iddyn nhw sicrhau nad yw gwresogi cartref yn costio gormod o arian. Mae **tenantiaid** yn gallu gofyn i landlordiaid drefnu i fesurydd clyfar gael ei ychwanegu at y cartref os nad oes un. Mae'r rhain yn helpu **tenantiaid** i wybod a rheoli faint maen nhw'n ei wario.



Mae rhaid iddyn nhw sicrhau nad yw gwresogi cartref yn ddrwg i'r **amgylchedd**.



Rhaid i gartrefi allu gadael i aer lifo drwyddynt yn iawn. Yn enwedig mewn ceginau ac ystafelloedd ymolchi gan defnyddio pethau fel dwythellau, gwyntyllau ac awyrellau yn y waliau.

# Dŵr




Dylai fod gan gartrefi ffitiadau ac offer sy'n atal dŵr rhag cael ei wastraffu.




Mae hyn yn gallu helpu **tenantiaid** i gadw eu biliau dŵr i lawr.



Ac mae'n dda i'r **amgylchedd**.




Mae rhaid i'r **landlord** ddilyn **Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999**. Mae hon yn ddeddf sy'n ymwneud â defnyddio dŵr.



Dylen nhw roi **casgenni dŵr** mewn gerddi os yw'n bosibl. Mae casgenni dŵr yn casglu dŵr glaw. Mae **tenantiaid** yn gallu defnyddio'r dŵr hwn ar gyfer eu gerddi. Dylai landlordiaid roi labeli rhybudd arnyn nhw i wneud yn siŵr bod tenantiaid yn eu defnyddio nhw'n ddiogel.

# Ceginau



Dylai ceginau fod yn llai nag 16 oed. Oni bai eu bod nhw mewn cyflwr da.

Dylai ceginau newydd gael eu cynllunio'n briodol. Ac yn ddiogel. Er enghraifft:



- Dylai fod lle i gwcer, oergell a pheiriant golchi. Ac offer eraill os oes angen.



- Dylai arwynebau gwaith fod yn ddigon mawr fel y bydd pobl yn gallu eu defnyddio nhw'n iawn. Ac yn ddiogel.



- Dylai fod digon o le storio yn y gegin. Ac yng ngweddill y cartref.



- Dylai fod rhywle i storio ailgylchu. Gall hyn fod y tu mewn neu'r tu allan.



- Dylai fod o leiaf 6 soced pŵer dwbl mae'n hawdd cael atyn nhw.



- Mae rhaid i geginau fod â llawr gwrthlithro. Dylai hyn fod yn hawdd ei lanhau a pheidio â thorri os bydd e'n gwlychu.



- Dylai fod rhywle i olchi, sychu ac awyru dillad. Os nad oes lle i sychu dillad, dylai'r landlord ddarparu peiriant sychu dillad.

# Ystafelloedd ymolchi



Dylai ystafelloedd ymolchi a thoiledau fod yn llai na 26 oed. Oni bai eu bod nhw mewn cyflwr da.



Mae rhaid i ystafelloedd ymolchi fod â llawr gwrthlithro. Dylai hyn fod yn hawdd ei lanhau a pheidio â thorri os bydd e’n gwlychu.



Dylai ystafelloedd ymolchi gynnwys cawod a digon o le am fath. Mae cawod yn gallu bod dros y bath.

# Rhaid i gartrefi fod yn gyfforddus

## Lle



Dylai cartrefi fod â digon o le i fyw yn gyfforddus.




Mae rheolau ynghylch faint o le sydd ei angen mewn cartref. Dylai'r **landlord** ddefnyddio'r **Metric Handbook** i gyfrifo'r lle sydd ei angen mewn cartref.

## Lloriau



Dylai fod gan bob ystafell loriau addas mewn cyflwr da pan fydd **tenant** newydd yn symud i mewn.




Er enghraifft, ddylai lloriau ystafelloedd ymolchi ddim bod yn rhy lithrig.



Dylai'r **landlord** wirio'r lloriau bob tro y bydd **tenant** yn symud allan.




Os nad yw'r lloriau mewn cyflwr da, dylen nhw eu newid nhw cyn i **denant** newydd symud i mewn. Bydd y landlord yn darparu lloriau addas. Gall y landlord hefyd roi llawr i'r tenant fel bod yn rhaid i'r **tenant** ofalu amdano fe.

## Sŵn



Dylai waliau a ffenestri fod o ansawdd da.



I sicrhau nad yw synau arferol yn achosi gormod o drafferth i **denantiaid**. Er enghraifft, sŵn traffig y tu allan.

# Gwneud cartrefi'n addas i'r tenant



Dylai'r **landlord** wneud yn siŵr bod cartref yn addas i'r **tenantiaid** sy'n byw ynddo fe.



Er enghraifft, mae angen lle ar rai **tenantiaid** ar gyfer teulu mwy. Neu am weddïo.



Ac mae angen storfeydd ychwanegol ar rai **tenantiaid** ar gyfer bwyd oherwydd eu crefydd.



Dylai cartref fod yn addas ar gyfer anghenion **tenant** anabl. Ac anghenion **tenant** hŷn.



Dylai fod yn hawdd dod o hyd i gartref a mynd i mewn iddo. Yn enwedig i'r gwasanaethau brys.

# Gerddi



Dylai cartrefi fod â gardd. Ond efallai na fydd hi'n bosibl cael un bob amser.



Dylai fod yn hawdd i **denantiaid** gael mynediad i'r ardd. Ac yn ddiogel.



Dylai gerddi fod â llwybr fel ei bod hi'n hawdd cerdded o'u cwmpas nhw.



Mae angen i erddi fod yn ddigon mawr i bobl eu defnyddio'n gyfforddus. Dylen nhw fod yn ddiogel i blant ifanc chwarae ynddyn nhw.



Dylai'r **landlord** ddarparu lein sychu dillad os yw'n bosibl. A dylai fod llwybr ati hi.



Dylai fod rhywfaint o le storio sy'n gallu cael ei gloi y tu allan. Er enghraifft, i storio beiciau ac offer gardd.

# Lleoedd dymunol tu allan



Dylai'r **landlord** geisio creu lleoedd dymunol tu allan. A dylai hi fod yn hawdd gofalu amdanyn nhw.



Dylai lleoedd tu allan fod yn dda i fywyd gwyllt. Er enghraifft, adar a gwenyn.



Dylai fod digon o blanhigion a choed. A dylai golau haul allu dod drwodd.



Mae hyn i gyd yn dda i'r **amgylchedd**.



Os nad oes gennych chi eich gardd eich hun, dylai fod digon o le storio diogel y tu allan ar gyfer beiciau, cadeiriau gwthio neu sgwteri symudedd ar gyfer pob **tenant**.

# Beth mae angen i'r landlord ei wneud




Erbyn mis Mawrth 2034, mae rhaid i'r holl **dai cymdeithasol** basio'r Safon.




Erbyn mis March 2025, mae rhaid i landlordiaid **tai cymdeithasol** wneud y pethau hyn:



- Casglu gwybodaeth am ansawdd eich cartrefi.



- Darganfod pa waith sydd ei angen i basio'r **Safon**.



- Darganfod faint fydd y gwaith yn ei gostio.



- Ysgrifennu cynllun am yr hyn maen nhw'n mynd i'w wneud. A chynnwys yr hyn nad ydyn nhw'n gallu ei wneud, hefyd.



Dylen nhw adael i **denantiaid** gael dweud eu barn nhw am y cynlluniau.



Dylai'r cynlluniau fod yn dda i'r gymuned leol. Er enghraifft, trwy greu swyddi newydd neu wasanaethau gwell ar gyfer y gymuned.



Erbyn mis Mawrth 2027, mae rhaid i **landlordiaid tai cymdeithasol** fod â chynllun ar gyfer gwella'r gwresogi yn eich cartref. Felly, mae'n well i'r **amgylchedd**. A fydd e ddim yn costio gormod o arian.



Mae rhaid i'r cartrefi basio'r **Safon** bob blwyddyn.



Dylai'r **landlord** gael rhywun i wirio eu cynlluniau a'u cartrefi yn aml.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae rhaid iddyn nhw ddweud wrth Lywodraeth Cymru sut maen nhw wedi pasio'r **Safon**.




Ac am unrhyw rannau dydyn nhw ddim wedi'u pasio. A pham.

# Mwy o wybodaeth




Dydy'r canllawiau a'r dogfennau yn yr adran hon ddim ar gael fel fersiynau hawdd i'w deall.

## Rhentu cartrefi



I ddysgu mwy am y gyfraith a rhentu cartrefi, cliciwch yma - Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

I ddysgu mwy am wneud yn siŵr bod cartrefi'n gyfforddus i fyw ynddyn nhw, cliciwch yma - Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd i fod yn gartref) (Cymru) 2022.

I ddarllen canllaw i **landlordiaid** am rentu cartrefi o ansawdd da, cliciwch yma - Ffitrwydd i fod yn gartrefi - canllaw i landlordiaid.

## Diogelwch



I ddarllen Canllawiau Gweithredol y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai – cliciwch yma.

I ddarllen canllaw i landlordiaid am y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai, cliciwch yma.

## Diogelwch



I ddysgu mwy am ganllaw'r heddlu am gadw pethau'n ddiogel, cliciwch yma - Secured By Design.



I ddysgu mwy am storio beiciau'n ddiogel, cliciwch yma.

## Gwresogi cartrefi



I ddarllen y Weithdrefn Asesu Safonol, cliciwch yma.

I ddysgu mwy am wresogi a diogelu'r amgylchedd, cliciwch yma.

## Diogelwch gwresogi



I ddysgu mwy am offer diogel sy'n llosgi olew, cliciwch yma.

I ddysgu mwy am offer llosgi tanwydd solet diogel, cliciwch ym.

# Diogelwch tân



I ddysgu mwy am ddiogelwch tân mewn fflatiau, cliciwch yma.



I ddysgu mwy am ddiogelwch tân mewn mathau arbennig o gartrefi, cliciwch yma.



I ddysgu mwy am ddiogelwch tân lle mae pobl yn cysgu, cliciwch yma.



I ddysgu mwy am reoli diogelwch tân mewn cartrefi, cliciwch yma.




I ddysgu mwy am ddiogelwch tân a'r gyfraith, cliciwch yma.



I ddysgu mwy am waliau allanol a diogelwch tân, cliciwch yma.

## Y lle sydd ei angen mewn cartrefi




I gael gwybod mwy am gael lle digonol mewn cartref, darllenwch **The Metric Handbook – Planning and Design Data**. Gallwch chi ddysgu mwy yma.



Dylech chi hefyd edrych ar **Adrannau Maint a Chynllun Unedau'r system Dangosyddion Ansawdd Tai**. Gallwch chi ddysgu mwy yma.

## Dŵr




I weld mwy o wybodaeth am y gyfraith a'r cyflenwad dŵr, cliciwch yma.



I ddarllen mwy am sut i arbed dŵr, cliciwch yma. A cliciwch yma.

# Trydan



I ddysgu mwy am y nifer isaf o socedi pŵer a ddylai fod mewn cartref, cliciwch yma.

# Geiriau anodd

## Amgylchedd

Yr amgylchedd yw lle rydyn ni'n byw. Mae'n cynnwys y tir, y môr, yr awyr, a phopeth sy'n byw arnyn nhw neu ynddyn nhw. Er enghraifft, planhigion, anifeiliaid, a physgod.

## Landlord

Mae landlordiaid yn berchen ar gartrefi mae pobl eraill yn eu rhentu ac yn byw ynddyn nhw. Mae rhaid i landlordiaid sicrhau bod eu cartrefi mewn cyflwr da.

## Tai cymdeithasol

Tai cymdeithasol yw cartrefi mae pobl yn gallu fforddio eu rhentu heb lawer o arian.

## Tenant

Mae tenant yn rhywun sy'n rhentu ei gartref. Maen nhw'n talu eu landlord bob wythnos neu bob mis.